# TASG: DAEARU







HAIA! OES GEN TI DALENT RUN FATH A CASI? S'DIM RHAID BOD E AR GAE PÊL-DROED, GALLAI FOD YN UNRHYW DALENT! OS OES, MAE'N BWYSIG DY FOD DI'N ANELU AT Y SÊR! OND DYW E DDIM MOR HAWDD WEITHIAU NAGYW E? EFALLAI BOD 'NA RWYSTRAU YN DY STOPIO DI RHAG CYRRAEDD DY BOTENSIAL. FEL CASI, MAE'N BWYSIG CAEL STRATEGAETHAU I DY HELPU FEL NAD YW'R MEDDYLIAU DRWG YN DY STOPIO DI RHAG CYRRAEDD Y BRIG.




UN PETH SY'N HELPU CASI YN Y RHAGLEN YW'R BROSES **'DAEARU'.** MAE HI'N DEFNYDDIO'R BROSES YMA BOB TRO MAE'N DECHRAU POENI AM RYWBETH. MAE'R 5 SYNNWYR YN ARF MOR BWYSIG I NI GYD AC MAEN NHW'N GALLU'N HELPU NI I DDOD 'NÔL I'R PRESENNOL AC I GANOLBWYNTIO AR BETH SY'N DIGWYDD NAWR.

BETH AM GAEL TRO AR Y BROSES O DDAEARU, FEL GWNAETH CASI YN Y RHAGLEN? BETH AM FYND AM DRO TU ALLAN A DEFNYDDIA'R UN STRATEGAETH Â CASI? MEDDYLIA AM:



- **5 PETH Y GELLI DI WELD**
- **4 PETH Y GELLI DI GLYWED**
- **3 PHETH Y GELLI DI DEIMLO**
- **2 BETH Y GELLI DI AROGLI**
- **1 PETH Y GELLI DI FLASU**



PAN RWYT TI'N AMAU DY HUNAN, MAE'N ANODD I TI GOFIO DY FOD DI'N GRYF NEU DY FOD DI'N DDA AM WNEUD RHYWBETH. MAE'R MEDDYLIAU DRWG YN DOD YN FWY A MWY AMLWG YN DY BEN. AR Y PWYNT YMA, MEDDYLIA AM 5 PETH DA AM DY HUNAN A CHOFIA AMDANYN NHW PAN FYDDI DI'N AMAU DY HUNAN!






**MAE ANGEN I TI FEDDWL AM Y PETHAU DA YN Y PRESENNOL A CHOFIA DY FOD DI'N GALLU BRWYDRO YN ERBYN UNRHYW BETH!**

**TI'N GRYF! TI'N CLASS!**





